Llywodraeth EM

# Y CYNLLUN PRESWYLIO’N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE (EU SETTLEMENT SCHEME)

## GWYBODAETH BRIFFIO ARWEINWYR CYMUNEDOL



Am ragor o wybodaeth ar Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme), yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i

**gov.uk/eu-settled-status**

Y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE– (EU Settlement Scheme) Ebrill 2019

# BETH YW'R
# CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE (EU SETTLEMENT SCHEME)?

## Beth mae'n golygu i mi?

- Os ydych chi'n ddinesydd yr UE[1], mae angen i chi ac aelodau eich teulu ymgeisio i **Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE** i (EU Settlement Scheme) barhau i fyw yn y Deyrnas Unedig.
- Mae'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyd (EU Settlement Scheme)  dion yr UE yn eich galluogi chi ac aelodau'ch teulu i gael y statws mewnfudo fyddwch chi angen i barhau i **fyw, gweithio ac astudio** yn y Deyrnas Unedig. Golyga'r statws hwn y gallwch barhau i fod yn gymwys ar gyfer:
- gwasanaethau cyhoeddus, fel gofal iechyd ac ysgolion
- cronfeydd cyhoeddus a phensiynau
- dinasyddiaeth Brydeinig, os ydych chi eisiau ymgeisio ac yn bodloni'r gofynion.

## Pwy sy'n gymwys i wneud cais?




Mae angen i chi ymgeisio os ydych chi'n ddinesydd yr UE neu'n aelod o deulu rhywun sy'n ddinesydd yr UE ond nad ydych chi o'r UE (yn cynnwys plant), gan gynnwys rhai gyda dogfen breswylio barhaol y (permanent residence) Deyrnas Unedig.

Nid oes angen i chi ymgeisio os oes gennych chi ganiatâd amhenodol i aros (indefinite leave to remain) a'ch bod yn ddinesydd Iwerddon, ond fe allwch os ydych chi eisiau.[2]

Ewch i **GOV.UK** i gael gwybod mwy am eich hawliau parthed y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) .



Mae angen i chi fod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig erbyn **31 Rhagfyr 2020**[3].

Os ydych chi wedi bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig am bum mlynedd yn olynol neu fwy, byddwch yn gymwys i gael **statws preswylydd sefydlog**.

Os ydych chi wedi bod yn preswylio am lai na phum mlynedd barhaus, byddwch yn gymwys i gael **statws preswylydd cyn-sefydlog**.



Ni ddylech fod yn droseddwr difrifol neu gyson, yn fygythiad i ddiogelwch cenedlaethol, neu fod â gorchymyn alltudiaeth, gorchymyn eithrio neu benderfyniad eithrio yn eich erbyn.

1 Defnyddir dinasyddion yr UE drwyddo draw i gyfeirio at ddinasyddion yr AEE a'r Swistir, sydd oll yn gymwys i ymgeisio i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme).

2 Nid oes rhaid i ddinasyddion Gwyddelig ymgeisio, er y gallant wneud hynny os dymunant. Bydd angen i aelodau teuluoedd nad ydynt yn Wyddelig ac nad ydynt yn Brydeinig i ddinasyddion Iwerddon ymgeisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) os ydynt eisiau aros yn y Deyrnas Unedig wedi 31 Rhagfyr 2020.

3 Neu ar y dyddiad pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, os na fydd cytundeb.

Mae Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) yn berthnasol i ddinasyddion yr AEE a'r Swistir:

Awstria
Gwlad Belg
Bwlgaria
Croatia
Gweriniaeth Cyprus
Y Weriniaeth Tsiec
Denmarc
Estonia
Y Ffindir
Ffrainc
Yr Almaen
Gwlad Groeg
Hwngari
Gwlad yr Iâ
Iwerddon
Yr Eidal
Latfia
Liechtenstein
Lithuania
Lwcsembwrg
Malta
Yr Iseldiroedd
Norwy
Gwlad Pwyl
Portiwgal
Rwmania
Slofacia
Slofenia
Sbaen
Sweden
Y Swistir

## Aelodau'r teulu

- Os ydych chi'n ddinesydd yr UE yn byw yn y Deyrnas Unedig, gallwch chi ac **aelodau eich teulu ymgeisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme)**. Nid oes angen i aelodau'r teulu fod o'r UE, gallant ddod o unrhyw le yn y byd (a elwir yn aelodau o'r teulu nad ydynt o'r UE).
- Mae aelodau agos o'r teulu yn cynnwys priod, partneriaid sifil, partneriaid dibriod, plant ac wyrion dibynnol, a rheini a neiniau a theidiau dibynnol.
- Gall aelodau agos o'r teulu nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig erbyn 31 Rhagfyr 2020[4] **ymuno â chi yn y Deyrnas Unedig ar unrhyw adeg yn y dyfodol**[5]. Byddant angen gallu dangos eu perthynas i chi a rhaid iddi ddal i fodoli pan fyddant yn ymgeisio i ddod i'r Deyrnas Unedig.
- Bydd plant a aned neu a fabwysiadwyd wedi 31 Rhagfyr 2020[6] hefyd yn cael diogelu eu hawliau.

i Am ragor o wybodaeth ar aelodau agos o'r teulu, ewch i **GOV.UK**.

## Pryd alla i ymgeisio?

Mae'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) ar agor ac mae gennych tan **30 Mehefin 2021**[7] i ymgeisio. Gellir dod o hyd i ganllaw ar ymgeisio ar **GOV.UK**. Wedi i chi ddarllen y canllaw, dechreuwch eich cais ar **gov.uk/eu-settled-status**.

4 Neu ar y dyddiad pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, os na fydd cytundeb.
5 Neu tan 29 Mawrth 2022, os na fydd cytundeb.
6 Neu ar y dyddiad pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, os na fydd cytundeb.
7 Neu 31 Rhagfyr 2020, os na fydd cytundeb.

# SUT MAE'R BROSES YMGEISIO'N GWEITHIO?

Gallwch gael mynediad i'r cais ar-lein yn defnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol. Mae eich cais yn cael ei gadw'n awtomatig, felly os ydych chi eisiau, gallwch gychwyn ac yna'i gwblhau eto. Mae am ddim i ymgeisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme).

## Gwybodaeth sylfaenol

Mae'r cais yn gofyn am wybodaeth sylfaenol fel eich enw, cyfeiriad, manylion cyswllt a chenedligrwydd.

## Prawf hunaniaeth

Dilyswch eich hunaniaeth a chenedligrwydd yn defnyddio eich pasbort, cerdyn adnabod cenedlaethol neu gerdyn preswylio biometrig (os nad ydych chi'n ddinesydd yr UE).

## Prawf preswylio

Profwch eich bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig trwy ddarparu eich rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych chi un. Gellir defnyddio dogfennaeth arall, neu ofyn amdani, i ddangos prawf preswylio.

## Gwiriad troseddoldeb


Cwblhewch y gwiriad troseddoldeb trwy ddatgan unrhyw gollfarnau troseddol. Dim ond troseddoldeb difrifol neu barhaus fydd yn effeithio ar eich cais. Ni fydd hyn yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o ddinasyddion yr UE ac aelodau eu teulu.

Gallwch gael cefnogaeth dros y ffôn neu'n bersonol os ydych chi angen cymorth ar-lein.

# PETHAU ALLWEDDOL I WYBOD AM Y CAIS

## Prawf o bwy ydych chi

I ddilysu eich hunaniaeth byddwch angen pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol dilys. Os ydych yn wladolyn o'r tu allan i'r UE, rydych yn dal i allu defnyddio pasbort, cerdyn preswylio biometrig neu hawlen preswylio fiometrig dilys. Pan fyddwch chi'n ymgeisio, mae sawl ffordd i ddilysu eich hunaniaeth:



sganio eich dogfen hunaniaeth yn defnyddio'r ap EU Exit: ID Document Check ar ddyfais Android (gallwch ddefnyddio dyfais aelod o'r teulu neu ffrind).



ewch i leoliad gwasanaeth sganio dogfennau hunaniaeth sy'n darparu mynediad at ddyfais Android. Ceir rhestr o leoliadau ar **gov.uk/eu-id-scanner-locations**.




anfonwch eich pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol i'r Swyddfa Gartref trwy'r post. Unwaith byddwch wedi dechrau'ch cais, byddwch yn cael y cyfeiriad.

Bydd angen i chi ddarparu llun digidol ohonoch chi'ch hun a fydd yn cael ei wirio i sicrhau ei fod yn cyd-fynd gyda'r llun yn eich dogfen hunaniaeth. Bydd hefyd angen i ddinasyddion o'r tu allan i'r UE ddarparu biometreg olion bysedd os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod, i ddibenion cyhoeddi cerdyn preswylio biometrig iddynt.

## Prawf preswylio

Byddwn yn defnyddio data'r Llywodraeth, ble fo ar gael, i'w gwneud yn haws i chi brofi ers faint ydych chi wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig. Os rhoddir rhif Yswiriant Gwladol, bydd gwiriadau yn cael eu rhedeg yn erbyn cofnodion HMRC a'r DWP. Bydd yn helpu rhoi gwybod i ni os ydych chi'n dal yn gymwys ar gyfer statws preswylydd sefydlog neu breswylydd cyn-sefydlog. Efallai y bydd achosion ble na ellir profi preswyliad yn awtomatig fel hyn ac efallai y byddwn angen tystiolaeth atodol. Os bydd hynny'n digwydd, peidiwch â phoeni. Byddwch yn gallu cyflwyno tystiolaeth bellach ar-lein trwy uwchlwytho lluniau neu sganio eich dogfennau i mewn i'ch cais. I weld rhestr o dystiolaeth awgrymedig a dderbynnir, ewch i **gov.uk/eu-evidence-of-residence**.

## Gwiriad troseddoldeb

Byddwn yn cyflawni gwiriadau troseddoldeb yn erbyn cronfeydd data troseddoldeb a diogelwch y Deyrnas Unedig, yn ogystal â chofnodion troseddol tramor ble fo'n briodol. Ni fydd mân droseddau, fel troseddau gyrru, yn effeithio ar eich cais. Ni fydd y gwiriadau troseddoldeb yn effeithio ar y mwyafrif o ddinasyddion yr UE ac aelodau eu teulu.

# CYMERADWYO A'CH STATWS

## Statws preswylydd cyn-sefydlog

Os byddwch yn derbyn statws preswylydd cyn-sefydlog (a elwir hefyd yn ganiatâd penodol i aros neu fynediad) mae hyn yn golygu y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o bum mlynedd. Bydd hyn yn eich caniatáu i aros yn y Deyrnas Unedig nes eich bod yn gymwys am statws preswylydd sefydlog, yn gyffredinol wedi i chi fyw'n barhaus yn y Deyrnas Unedig am bum mlynedd.


## Statws wedi setlo

Os byddwch yn derbyn statws preswylydd sefydlog (a elwir hefyd yn ganiatâd amhenodol i aros neu fynediad (indefinite leave to remain or enter)) mae hyn yn golygu nad oes terfyn amser ar ba mor hir y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig.

Fel arfer byddwch yn gallu **ymgeisio am ddinasyddiaeth Prydeinig** 12 mis wedi i chi dderbyn statws wedi setlo.

## Cymeradwyaeth

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael **prawf digidol** o'u statws trwy wasanaeth ar-lein. Bydd eich aelodau'r teulu sydd o'r tu allan i'r UE yn derbyn cerdyn preswylio biometrig os nad oes ganddynt un yn barod.



Bydd eich statws yn cael ei storio'n electronig gan y Swyddfa Gartref. Wedi i chi dderbyn eich statws, fe ddarperir manylion ar sut i gael mynediad ato ar **GOV.UK**.



Byddwch yn gallu profi eich hawliau i eraill, yn cynnwys cyflogwyr, ar-lein.

Bydd help ar gael os ydych chi'n cael trafferth defnyddio gwasanaethau ar-lein.




Ni fydd unrhyw newid i wiriadau Hawl i Weithio ar ddinasyddion yr UE tan 30 Mehefin 2021[8].

Os ydych chi'n ddinesydd yr UE, gallwch ddal i ddefnyddio eich pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol fel prawf o'ch hawliau tan 30 Mehefin 2021[9].

8 Neu 1 Ionawr 2021, os na fydd cytundeb.
9 Neu 31 Rhagfyr 2020, os na fydd cytundeb.

# RHAGOR O WYBODAETH A CHYMORTH AR GAEL

## Cael gwybod mwy

Ewch i **gov.uk/eu-settled-status** i:

- gael mynediad i'r canllaw ymgeisio
- gychwyn eich cais ar **gov.uk/apply-eu-settled-status**
- ddarllen am y camau nesaf a dinasyddiaeth

## Cefnogaeth ar gael

**Mae cefnogaeth ar gael os ydych chi angen help i gwblhau eich cais, yn cynnwys:**

### Canolfan Gymorth Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Ar gyfer cwestiynau unigol am eich cais, ffoniwch **0300 123 7379** (Llun–Gwener, 8am–8pm a Sadwrn–Sul, 9.30am–4:30pm) neu +44 (0) 20 3080 0010 o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig. Dysgwch am daliadau ar gyfer galwadau ar **gov.uk/call-charges.**

Gallwch hefyd ofyn cwestiwn yn defnyddio'r ffurflen gyflwyno ar-lein **eu-settled-status-enquiries.service.gov.uk**. Am ragor o wybodaeth, ewch i **GOV.UK**.

---

### Digidol a Gynorthwyir

Mae'r gwasanaeth am ddim hwn ar gael dros y ffôn ac yn bersonol os nad oes gennych y mynediad, sgiliau neu hyder priodol i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein. Cysylltwch â Digidol a Gynorthwyir trwy ffonio **03333 445 675** (Llun–Gwener, 9am–5pm). Am ragor o wybodaeth, ewch i **gov.uk/eu-assisted-digital**.

---

### Gwasanaeth sganio dogfennau hunaniaeth

Mae'r gwasanaeth ar gael i gwblhau'r cam gwirio hunaniaeth os nad oes gennych chi fynediad i EU Exit: ID Document Check. Efallai y bydd ffi weinyddol i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. I weld rhestr o leoliadau sganio dogfennau hunaniaeth, ewch i **gov.uk/eu-id-scanner-locations**.

---

### Sefydliadau cymunedol

Bydd rhestr o sefydliadau cymunedol gyda chyllid grant yn darparu cefnogaeth y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) ar gael ar **GOV.UK**.

> Am ragor o wybodaeth ar Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme), yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i **gov.uk/eu-settled-status**.

Am ragor o wybodaeth ar y gefnogaeth sydd ar gael
**gov.uk/eu-settled-status**

Llywodraeth EM